YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

Mai 13eg 2016

Annwyl Riant/ Gwarcheidwad,

**Trefniadau Blwyddyn 12**

Ysgrifennaf atoch i ddymuno pob lwc i'ch mab/merch yn ei arholiadau UG (AS), ac i'ch hysbysu bydd amserlen o wersi pynciol a gwersi'r Bac yn rhedeg o ddydd Llun, 13eg o Fehefin tan ddiwedd y tymor (dydd Mercher, 20fed o Orffennaf). Gweler isod y trefniadau ar gyfer y cyfnod hyn. **Mae'n bwysig iawn bod y myfyrwyr yn deall y bydd gweithgareddau penodol wedi eu trefnu iddynt ar ôl yr arholiadau ac felly disgwylir i bawb i fod yn bresennol yn yr ysgol. Bydd llawer iawn o waith y Bac, yn ogystal a pharatoadau ar gyfer y cam nesaf ar ôl gadael y Chweched Dosbarth, yn cael ei gyflwyno yn ystod y cyfnod hwn:**

- **Dydd Llun 13eg o Fehefin:** Dychwelyd o'r cyfnod arholiadau am bythefnos o wersi
- **Mehefin 23ain-24ain:** Cwrs opsiynol 'Cymry'r Byd' ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant (i'w gadarnhau)
- **Mehefin 27ain – 30ain (Diwrnod HMS ar ddydd Gwener, 1af o Orffennaf):** Wythnos y Bac - Ffocws ar Ymchwiliad Unigol/Her y Gymuned/Her Dinasyddiaeth Fyd-eang
- **Gorffennaf 4ydd – 8ed:** Wythnos Dringo'n Uwch - Cyflwyniad i'r broses UCAS / Her Menter a Chyflogadwyedd y Bac
- **Gorffennaf 11eg – 15ed:** Wythnos Byd Gwaith – Her Menter a Chyflogadwyedd
- **Gorffennaf 18ed-20ed:** Gweithgareddau diwedd tymor:
- **Awst 18ed:** Canlyniadau UG / Safon Uwch

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle i'ch atgoffa o bolisi gwisg Y Chweched yn ystod tymor yr Haf. Disgwylir i fyfyrwyr ymddangos yn drwsiadus ac ymateb i ddisgwyliadau'r ysgol. Golyga hyn y dylai eich plentyn ymateb i'r wisg ysgol lawn. Ni chaniateir siorts lliwgar, trowsus denim nac ychwaith esgidiau anaddas (e.e. 'fflip-fflops') sy'n tarfu ar y wisg swyddogol. Rwy'n gobeithio y byddwch yn ein cefnogi yn hyn o beth er mwyn i ni gynnal ein safonau.
Os oes gennych unrhyw bryderon am unrhyw beth ac am gael sgwrs gyda mi, cysylltwch â mi yn yr ysgol. Diolch yn fawr iawn am eich cydweithrediad parod bob amser a dymuniadau gorau.

Yn gywir,

Mr Ben Davies
Pennaeth y Chweched Dosbarth

**YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE**
**Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU**
**Ffon: (01792) 560600 Ffacs: (01792) 560601**
**E-Bost: YGG.Bryntawe@swansea-edunet.gov.uk**
**Pennaeth: Mr Simon Davies**

YSGOL RYGBI SCHOOL OF RUGBY
YSGOL SY'N PARCHU HAWLIAU UNICEF
BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur